

# Ymgynghoriad ar ganllawiau i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol

## Adroddiad dadansoddol

### 1. Cefndir polisi

- 1.1. Rhwng Gorffennaf a Hydref 2017, cynhaliom ymgynghoriad ar ganllawiau newydd i berchnogion fferyllfeydd, yn amlinellu'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni i sicrhau y gall y tîm fferyllol ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol i gwsmeriaid a'r cyhoedd.
- 1.2. Eglurom fod y fframwaith polisi sydd ar waith ar hyn o bryd wedi dyddio ac nad yw'n adlewyrchu'r rolau cynyddol amrywiol o fewn fferylliaeth.
- 1.3. Nod y canllawiau yr ymgynghorwyd arnynt yw cefnogi ein Safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig<sup>1</sup>, ac egwyddor 2 y Safonau, yn benodol, sy'n nodi bod "Staff wedi eu hymbweru ac yn alluog i warchod iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd". Mae'r canllawiau yn adlewyrchu ein huchelgais i gryfhau'r fframwaith rheoleiddio y mae staff fferyllol yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae cwmpas y canllawiau yn cynnwys pob aelod staff fferyllol, gan gynnwys rheolwyr nad ydynt yn gofrestrdig.
- 1.4. Mae'r canllawiau wedi eu hysgrifennu ar gyfer pobl sy'n berchen ar fferyllfeydd cofrestredig, ond gobeithiwn y byddant yn hwb i gysondeb ymhob lleoliad lle mae staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ynghlwm wrth y gwaith o ddarparu gwasanaethau fferyllol.
- 1.5. Rydym wrthi'n ystyried y materion a gododd yn yr ymgynghoriad ac y ceir manylion amdanynt yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn cyhoeddi'r canllawiau gorffenedig maes o law.

### 2. Ein cynigion yn gryno

- 2.1. Wedi adolygu'r fframwaith achredu anstatudol ar gyfer rhaglenni hyfforddiant i staff fferyllol heb eu cofrestru sydd ar waith ar hyn o bryd, cynigiom na fyddem bellach yn cymeradwyo rhaglenni hyfforddiant unigol a chymwysterau ar gyfer staff fferyllol sydd heb eu cofrestru.
- 2.2. Cynigiom hefyd y dylai perchnogion fferyllfeydd fod yn atebol i'r CFfC am hyfforddiant staff sydd heb eu cofrestru yn eu fferyllfeydd nhw, yn hytrach na'r fferylllydd unigol fel y mae ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodom na fyddai hyn yn negyddu'r cyfrifoldeb pwysig sydd ar fferyllwyr unigol i ddirprwyo tasgau ddim ond i bobl sy'n alluog i gyflawni'r tasgau neu i bobl sy'n cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo.

<sup>1</sup> Safonau'r CFfC (2012) ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, ar gael yn [https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/standards\\_for\\_registered\\_pharmacies\\_september\\_2012.pdf](https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/standards_for_registered_pharmacies_september_2012.pdf)

- 2.3. Cynigiom isafswm lefel galluedd ar gyfer staff fferyllol sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddosbarthu a chyflenwi meddyginiaethau. Yn y canllawiau, cynigiom y byddai'n rhaid i staff gael y wybodaeth a'r sgiliau sy'n rhan o unedau perthnasol cymhwyster lefel 2 cydnabyddedig, neu'n hyfforddi tuag at hyn.
- 2.4. Cynigiom hefyd y dylid ymrestru staff sydd heb eu cofrestru ac sydd arnyn nhw angen hyfforddiant ac addysg pellach i gyrraedd lefel gallu ar gyfer eu rôl ar raglen hyfforddi briodol o fewn tri mis o gychwyn ar eu gwaith.

### 3. Ynghylch yr ymgynghoriad

#### 3.1 Trosolwg

- 3.1.1. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am ddeuddeg wythnos, yn cychwyn ar 20 Gorffennaf ac yn dod i ben ar 11 Hydref 2017. Er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer â phosibl o unigolion a sefydliadau:
- Roedd arolwg ar-lein ar gael i'w gwblhau gan unigolion a sefydliadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Derbyniom hefyd nifer o ymatebion drwy e-bost.
  - Gwnaethom arolwg byr ar staff heb eu cofrestru, wedi eu targedu'n benodol mewn cynadleddau fferylliaeth, ac anfonom e-bost at gyflogwyr i'w anfon ymlaen at eu staff anghofrestredig.
  - Trefnom gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid, wedi eu hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol, darparwyr hyfforddiant, cyrff dyfarnu a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol yn cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol.
  - Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy ddatganiad i'r wasg i gyfryngau'r fasnach fferyllol, drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cyhoeddiad ar-lein Regulate.

#### 3.2 Arolygon

- 3.2.1. Derbyniom **831** o ymatebion i'n prif arolwg ymgynghori. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr wedi cwblhau'r holiadur ar-lein, gyda'r gweddill yn cyflwyno'u hymatebion drwy e-bost, yn defnyddio strwythur y ddogfen ymgynghori.
- 3.2.2. Nododd **708** o'r ymatebwyr hyn eu bod yn ymateb fel unigolion a nododd **123** eu bod yn ymateb ar ran sefydliad.
- Yn ogystal â'r ymatebwyr hyn, derbynion nifer fechan o e-byst gan sefydliadau oedd yn rhannu eu barn mewn ffordd fwy cyffredinol.
- 3.2.3. Derbyniom **78** o ymatebion i'r arolwg byr, oedd yn targedu gweithwyr sydd heb eu cofrestru ac oedd yn fersiwn fyrrach o'r prif arolwg ymgynghori.

#### 3.3 Digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid

- 3.3.1. Defnyddiwyd y cwestiynau o'r arolwg ar-lein hefyd yn sail i'r trafodaethau yn ein digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid, ac fe'n galluogwyd felly i glywed barn gwahanol bobl a'i chynnwys yn y dadansoddiad ar yr ymgynghoriad.
- Trefnom dri grŵp ffowch ar gyfer cleifion - yn Llundain, Glasgow a Chaerdydd

- Cynhaliom dair trafodaeth fwrdd – gyda darparwyr hyfforddiant, rhanddeiliaid fferyllol a chyrrff dyfarnu
- Siaradom yng nghynhadledd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) ac yn y Sioe Fferyllol. Mynychom hefyd ddau gyfarfod LPC a phwyllgor Ymarfer a Pholisi'r Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol (NPA) i sôn am yr ymgynghoriad ar y tîm fferyllol a gwaith arall sy'n cael ei wneud gennym ar hyn o bryd.

## 4. Ein dulliau dadansoddi ac adrodd

### 4.1. Trosolwg

- 4.1.1. Mae pob ymateb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys nodiadau o'r digwyddiadau i randdeiliaid, wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu ein dadansoddiad o themâu a materion a gododd yn yr ymgynghoriad. Mae ein dull thematig yn ein galluogi i gynrychioli'r ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed hynny gan unigolion neu sefydliadau, a boed mewn ysgrifen neu ar lafar mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.
- 4.1.2. Roedd y gwahanol lwybrau ymateb oedd ar gael i unigolyn a sefydliadau yn golygu bod rhywfaint o ddyblygu'n annatod. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau wedi cwrdd â ni mewn digwyddiadau i randdeiliaid a hefyd wedi cyflwyno ymateb ysgrifenedig. Llwyddodd rhai sefydliadau i symblu aelodau unigol i ymateb yn uniongyrchol hefyd. Mewn ambell achos, cawsom ymatebion lluosog gan yr un gangen/rhan o sefydliad. Er mwyn delio gyda hyn yn deg, rydym wedi ystyried pob ymateb yn unigol, a chanolbwyntio ar y materion a godwyd.
- 4.1.3. Prif elfen yr ymgynghoriad oedd arolwg hunanddewis, ar y platfform ar-lein, Smart Survey. Fel gyda phob ymgynghoriad, rydym yn disgwyl y bydd unigolion a grwpiau sy'n ystyried bod y cynigion yn effeithio'n benodol arny'n nhw, neu sydd â barn gref ar y mater, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.
- 4.1.4. Er mwyn bod yn dryloyw, mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau fu'n rhan o'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost a/neu drwy'r digwyddiadau ymglymu.

### 4.2. Dadansoddiad ansoddol

- 4.2.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol ar yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion i'r arolwg ar-lein gan unigolion a sefydliadau (i brif arolwg yr ymgynghoriad a'r arolwg byr), ymatebion drwy e-bost a'r post a nodiadau o ddigwyddiadau rhanddeiliaid.
- 4.2.2. Datblygwyd fframwaith codio i adnabod gwahanol bynciau a meysydd patrymau, a syniadau o fewn yr ymatebion. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i roi strwythur i'n dadansoddiad. Adeiladwyd y fframwaith o'r gwaelod drwy broses iteraidd yn adnabod yr hyn oedd yn dod i'r amlwg o'r data, yn hytrach na phennu fframwaith a benderfynwyd o flaen llaw.
- 4.2.3. Diben y dadansoddiad oedd adnabod themâu cyffredin ymhlith y rhai oedd yn rhan o'r gweithgareddau ymgynghori, yn hytrach na dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol neu is-grwpiau ymhlith yr ymatebwyr.
- 4.2.4. Mae'r term 'ymatebwyr', a ddefnyddir gydol yr adroddiad, yn cyfeirio at bawb a gwblhaodd arolwg yr ymgynghoriad a phawb a fynychodd ein digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.

### **4.3. Dadansoddiad meintiol**

- 4.3.1. Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol, megis cwestiynau ydw/nac ydw ac ati ac opsiynau graddio. Mae'r ymatebion i gyd wedi eu coladu a'u dadansoddi, gan gynnwys y rhai ddaeth i law dros e-bost yn defnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a rannodd farn mewn dull mwy cyffredinol wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.
- 4.3.2. Mae'r ymatebion wedi eu dosbarthu yn ôl y math o ymatebydd, er mwyn peidio â rhoi'r un pwysoli ar ymatebion gan unigolion a sefydliadau (a allai gynrychioli cannoedd o unigolion). Maen nhw wedi eu cyflwyno ochr yn ochr yn y tablau gydol yr adroddiad er mwyn helpu i adnabod a oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y categorïau ymateb hyn.
- 4.3.3. Cafodd un ymatebydd a nododd ei fod yn ymateb ar ran sefydliad ei aiddosbarthu i'r categori unigolion ar sail yr atebion roedd wedi eu rhoi.
- 4.3.4. Cafodd un ymatebydd ei eithrio o'r dadansoddiad gan nad oedd y sylwadau'n ymwneud â chwestiynau'r ymgynghoriad.

### **4.4. Strwythur arolwg yr ymgynghoriad**

- 4.4.1. Roedd prif arolwg yr ymgynghoriad wedi ei strwythuro i roi cwestiwn penagored ar ôl pob cwestiwn caeedig am y dull oedd yn cael ei gynnig a'r canllawiau drafft. Roedd hyn yn galluogi pobl i egluro'u rhesymeg, rhoi enghreifftiau ac ychwanegu sylwadau.
- 4.4.2. Roedd yr arolwg byr yn cynnwys un cwestiwn penagored ar ddiwedd yr holiadur.
- 4.4.3. Er mwyn ei wneud yn hawdd ei ddefnyddio, rydym wedi strwythuro'r adran ddadansoddi mewn ffordd sy'n adlewyrchu trefn cwestiynau'r ymgynghoriad. Mae hyn wedi ein galluogi i gyflwyno ein dadansoddiad meintiol ac ansoddol ochr yn ochr, gyda'r dadansoddiad thematig yn cadarnhau a rhoi ystyr i'r canlyniadau rhifol sydd yn y tablau<sup>2</sup>.

---

<sup>2</sup> Sylwer bod y tablau sy'n cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg byr wedi eu cynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

# Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gweithgareddau ymglymu: yr hyn a glywom

## 5. Yr hyn a glywom: Barn ar y cynigion ynghylch atebolrwydd perchnogion fferyllfeydd am hyfforddi staff heb eu cofrestru

Tabl 1. Atebolrwydd perchnogion fferyllfeydd: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ydych chi'n cytuno gyda'r dull sy'n cael ei gynnig?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Ydw	605 (86%)	76 (63%)	681
Nac ydw	102 (14%)	45 (37%)	147
Cyfanswm nifer ymatebion	707 (100%)	121 (100%)	828

5.1. Fel sy'n cael ei adlewyrchu yn yr ymatebion i'r cwestiwn caeedig (gweler Tabl 1 uchod), roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo mai dyma oedd y dull cywir. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau yn lefel y gefnogaeth ymhlith unigolion a sefydliadau.

### 5.2. Rhesymeg dros gefnogi'r cynigion

5.2.1. Roedd unigolion yn fwy tebygol o ffafrio trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros staff heb eu cofrestru o'r fferyllfeydd â chyfrifoldeb i berchennog y fferyllfa. Roedd gan sefydliadau oedd yn cefnogi'r newid, fodd bynnag, resymau tebyg dros gefnogi'r cynigion.

5.2.2. Roedd y dadleuon dros ein cynigion yn cynnwys y ffaith mai perchennog fferyllfa yw'r un sydd â rheolaeth dros adnoddau ariannol. Felly ef neu hi sy'n gyfrifol am gyflogi staff, am sicrhau bod cyfuniad sgiliau cywir o fewn y tîm fferyllol, ac am ddyrannu'r gyllideb, gan gynnwys cyllideb hyfforddi staff. Yn ôl ymatebwyr, roedd yn rhesymol felly mai perchnogion fferyllfeydd ddylai fod yn gyfrifol am hyfforddiant eu staff. Er bod ymatebwyr yn cytuno bod gan fferyllwyr â chyfrifoldeb ddyletswydd i ddirprwyo tasgau ddim ond i bobl gymwys, roedden nhw'n teimlo na ddylai fferyllwyr dderbyn cyfrifoldeb dros drefnu a darparu hyfforddiant i staff.

5.2.3. Roedd dadl arall yn sôn am y pwysau sydd ar fferyllwyr unigol, gyda hyfforddiant staff yn faich ychwanegol ar weithwyr proffesiynol sydd eisoes â baich gwaith trwm. Roedd symud y cyfrifoldeb am hyfforddiant oddi arnynt yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol, gan y byddai'n rhyddhau peth o'u hamser ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu dyletswyddau clinigol â chleifion yn ganolog iddynt.

5.2.4. Nodwyd lefelau staffio, cyllidebau ac amser sawl gwaith fel problemau o ran galluogi staff i gwblhau eu hyfforddiant - gyda fferyllwyr yn meddu ar ychydig neu ddim dylanwad ar y rhain, yn wahanol i berchnogion fferyllfeydd. Nododd rhai bod yr angen i greu elw yn effeithio'n andwyol ar lefelau staffio ac weithiau ar fuddsoddiad mewn hyfforddiant i staff.

5.2.5. Soniodd rhai ymatebwyr am achosion pan fo fferyllfeydd locwm neu gyflenwi yn gweithredu fel fferyllfeydd â chyfrifoldeb. Roedd y gweithwyr fferyllol hyn yn aml mewn sefyllfa anodd, heb drosolwg sylweddol dros

hyfforddiant staff ac ond ychydig o allu i weithredu pan fo diffygion, ond yn atebol am y staff sy'n gweithredu dan eu goruchwyliaeth. Roedd rhai yn dadlau, gyda mwy o fferyllwyr yn mynd a dod, y byddai'n fwy synhwyrol ac yn creu mwy o gysondeb pe bai'r perchennog yn gyfrifol am yr agwedd hon ar reoli fferyllfa.

- 5.2.6. Roedd yr effaith fawr y gall staff heb eu hyfforddi ei chael ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion a'r cyhoedd yn cael ei chydabod. Roedd teimlad y byddai'r cynnig i roi cyfrifoldeb dros yr agwedd hon ar y busnes i'r perchennog yn gwella ansawdd ledled y sector ac yn sicrhau safon gyson, gyda gweithwyr fferyllol felly yn gallu bod yn hyderus yng ngallu eu staff.

### **5.3. Rhesyw meg dros anghytuno gyda'r cynigion**

- 5.3.1. Roedd y rhai oedd yn anghytuno gyda'r cynigion yn teimlo bod gan fferyllwyr unigol well dealltwriaeth o anghenion hyfforddiant staff ac yn fwy galluog i allu barnu eu gallu yn sgil eu cyswllt dydd wrth ddydd gyda staff heb eu cofrestru yn eu fferyllfeydd. Roedd y farn hon yn fwy cyffredin ymhlith y sefydliadau a ymatebodd nag ymhlith y rhai oedd yn ateb fel unigolion. Yr un oedd y rheswm, fodd bynnag, yn y ddau grŵp ymateb.
- 5.3.2. Roedd rhai yn teimlo, pe bai gan berchennog gyfrifoldeb dros hyfforddiant, y byddai dull ticio blychau yn cael ei ddilyn, ar sail targedau penodol a chwblhau modiwlau penodol, yn hytrach nag ar sail diogelwch cleifion ac anghenion y boblogaeth leol.
- 5.3.3. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bosibl y gallai perchennog, na fyddai'n fferylllydd o bosibl, fod yn ddiffygiol o ran deall anghenion hyfforddiant staff yn y fferyllfa. Byddai'n well rhoi'r cyfrifoldeb, felly, ar y goruchwyliwr fyddai hefyd yn aelod cofrestredig o'r CFFC.

### **5.4. Awgrymiadau i rannu cyfrifoldeb**

- 5.4.1. Roedd awgrymu rhannu cyfrifoldeb mewn rhyw ffordd rhwng perchnogion a fferyllwyr â chyfrifoldeb yn eithaf cyffredin. Nodwyd y byddai hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng anghenion hyfforddi cyffredinol y sefydliad a barn y gweithwyr proffesiynol ynghylch sgiliau a gallu eu staff. Roed teimlad y dylai perchennog y fferyllfa fod yn gyfrifol am roi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gweithwyr fferyllol heb eu cofrestru wedi eu hyfforddi ac yn alluog i gyflawni eu rôl ac am ddarparu'r adnoddau angenrheidiol. Fodd bynnag, y fferylllydd sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda staff heb eu cofrestru sydd yn y safle gorau i adnabod unrhyw fyfychau mewn hyfforddiant ac anghenion datblygu eu staff. Dylai ef/hi wedyn roi gwybodaeth i'r perchennog am yr hyn sydd ei angen ar gyfer aelodau staff penodol. Y perchennog, yn ei dro, fyddai'n gyfrifol am asesu'r bwlch a'i lenwi.

### **5.5. Materion eraill**

- 5.5.1. Roedd pwyntiau perthnasol eraill a wnaed gan sefydliadau yn cynnwys:
- Canllawiau pellach ar reoli gwrthdaro proffesiynol posibl, mewn achosion lle mae gan y fferylllydd farn wahanol i'r perchennog o ran gallu eu staff.
  - Mwy o eglurder ar y dull y byddai'r CFFC yn ei ddefnyddio i ddal perchnogion fferyllwyr nad ydynt yn aelodau cofrestredig o'r CFFC i gyfrif, pe bai'r cynigion yn dod i rym.

## 6. Yr hyn a glywom : Barn ar y meysydd sy'n rhan o'r canllawiau a gynigir

Tabl 2. Meysydd sy'n rhan o'r canllawiau: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ydy'r canllawiau drafft yn cynnwys yr holl feysydd allweddol sydd eu hangen i sicrhau tîm fferyllol diogel ac effeithiol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Ydyn	601 (85%)	94 (78%)	695
Nac ydyn	104 (15%)	26 (22%)	130
Cyfanswm nifer ymatebion	705 (100%)	120 (100%)	825

6.1. Fel y mae'r ymatebion i'n cwestiwn caeedig yn ei adlewyrchu (gweler Tabl 2 uchod), roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cefnogi'r canllawiau a'r meysydd oedd yn rhan ohonynt. Fodd bynnag, roedd nifer o awgrymiadau am ffyrdd i'w gwella. Unwaith eto, roedd ambell farn benodol yn cael ei choleddu'n amlach ymhlith unigolion nag ymhlith sefydliadau ac ymhlith sefydliadau nag unigolion.

### 6.2. Cydnabod a gweithredu ar bethau penodol sy'n achosi pwysau ar fferylliaeth

6.2.1. Roedd unigolion yn fwy tebygol o goleddu barn ar hyn. Roedden nhw'n teimlo y byddai pethau sy'n achosi pwysau ar weithwyr, megis oriau gwaith hir, llwyth gwaith cynyddol fferyllwyr unigol, toriadau i gyllid a diffyg amser i hyfforddi, yn rhwystro gweithredu'r canllawiau.

6.2.2. Roedd llawer yn dymuno gweld y canllawiau'n nodi lefelau staffio isafswm ar sail nifer presgripsiynau neu drosiant fferyllfa. Y rheswm dros hyn oedd sicrhau diogelwch cleifion a lleihau'r pwysau a'r lefelau straen mae staff fferyllol yn eu gweld ar hyn o bryd.

### 6.3. Mwy o eglurder ynghylch hyfforddiant - h.y. sut mae'n cael ei ddarparu, ei gyfathrebu a'i gynnal

6.3.1. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am ragor o bwyslais ar ddarpariaeth a chymorth hyfforddiant ar gyfer staff heb eu cofrestru. Roedden nhw'n teimlo y gallai fod yn anodd i berchnogion fferyllfeydd ddarparu adnoddau digonol ar gyfer hyfforddi staff, yn cynnwys amser dysgu wedi ei neilltuo. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n anodd sicrhau bod amser dysgu wedi ei neilltuo ar gael i staff fferyllol heb eu cofrestru (yn enwedig gan nad yw hyn yn arfer cyffredin ar hyn o bryd ar gyfer gweithwyr fferyllol cofrestredig).

6.3.2. Gofynnodd ymatebwyr am ragor o fanylion o ran sut y byddai perchnogion fferyllfeydd yn cyfathrebu gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol (gan gynnwys staff locwm) bod staff fferyllol heb eu cofrestru wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol. Roedd hyn yn cynnwys argaeledd a hygyrchedd cofnodion hyfforddiant cywir a chyfredol staff i weithwyr fferyllol sy'n gweithio mewn fferyllfeydd o ddydd i ddydd, yn hytrach na'r perchennog yn unig. Gofynnwyd am fwy o eglurder hefyd o ran monitro cofnodion hyfforddiant, yn enwedig gyda chwmnïau lluosog mawr lle mae'r cofnodion yn aml yn cael eu cadw'n ganolog.

- 6.3.3. Soniodd rhai ymatebion bod angen cryfhau'r gofyniad am ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a rheoli/gwerthuso perfformiad yn y canllawiau. Roedd cwblhau'r cwrs unwaith, heb fod angen diweddarau'r wybodaeth, yn annigonol (yn enwedig o gofio'r anghenion DPP helaeth sydd ar weithwyr fferyllol proffesiynol) ac o bosibl yn beryglus o safbwynt diogelwch cleifion.
- 6.3.4. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd cwblhau'r cwrs hyfforddi oddi ar y safle yn ddigonol, gan fod gwaith staff fferyllol heb eu cofrestru yn aml yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb â chleifion. Roedd ymarfer seiliedig ar waith felly yn rhan hanfodol o unrhyw hyfforddiant o'r fath a rhaid adlewyrchu hynny yn y canllawiau.
- 6.3.5. Codwyd pwynt, a wnaed hefyd yn ymateb i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad, ynghylch diffinio cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros hyfforddiant staff heb eu cofrestru. Roedd llawer yn rhannu'r farn mai'r fferylllydd â chyfrifoldeb ddylai gael y gair olaf ar y lefel hyfforddiant addas ar gyfer aelodau staff unigol. Dylai fod darpariaeth i ganiatáu i fferyllwyr herio barn perchnogion, mewn achosion lle mae anghytuno ynghylch eu penderfyniadau.
- 6.3.6. Soniwyd weithiau hefyd am achos myfyrwyr fferyllol a'r sefyllfa letchwith fyddai'n codi petai gofyn iddynt gwblhau NVQ yn ychwanegol at eu hastudiaethau. Roedd teimlad y dylai'r canllawiau nodi'n benodol eu bod wedi eu heithrio o hyn.

#### **6.4. Manylion ynghylch heddlua'r canllawiau**

- 6.4.1. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod angen rhagor o eglurder ynghylch monitro a gorfodi'r canllawiau. Roedden nhw'n teimlo bod angen darparu ar gyfer cefnogi a chraffu ar berchnogion fferyllfeydd mewn cysylltiad â'r canllawiau, yn ogystal â gweithdrefnau disgyblu a sancsiynau mewn achosion o anghyddfurfio. Codwyd hyn yn benodol mewn perthynas â rheolwyr nad ydynt yn fferyllwyr ac nad ydynt yn aelodau o'r CFFC.

#### **6.5. Y canllawiau'n rhy haearnaidd/beichus**

- 6.5.1. Roedd rhai sefydliadau'n teimlo bod y canllawiau'n rhy haearnaidd ac y gallent fod yn rhy feichus, yn enwedig o ran staff rhan amser. Roedd diffyg hyblygrwydd o ran lefelau hyfforddi yn arbennig o amhoblogaidd gan rai ac roeddent yn teimlo ei fod yn groes i'r hyn a ddywedir mewn cyhoeddiadau eraill gan y CFFC – e.e. y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

#### **6.6. Awgrymiadau eraill**

- 6.6.1. Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen mwy o bwyslais ar y canlynol yn y canllawiau:
- Sgiliau cyfathrebu a chlinigol/ymgynghorol
  - Proses chwythu'r chwiban benodol (fyddai'n darparu ar gyfer mynegi pryderon am nifer, sgiliau a hyfforddiant staff)
  - Cyfrinachedd
  - Diogelu
  - Diogelu data
  - Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a sensitifrwydd diwylliannol



- Pwyslais amlwg ar ddiogelwch cleifion
- Ymddygiad a nodweddion staff heb eu cofrestru

## 7. Yr hyn a glywom: Barn ar y cynigion ynghylch anghenion hyfforddiant ac addysg – cymhwyster Lefel 2

Tabl 3. Anghenion hyfforddiant ac addysg: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ydych chi'n cytuno gyda'r lleiafswm lefel galluedd ar gyfer staff fferyllol sydd heb eu cofrestru ac sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddsbarthu a chyflenwi meddyginiaethau?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Ydw	529 (75%)	59 (49%)	588
Nac ydw	176 (25%)	62 (51%)	238
Cyfanswm nifer ymatebion	705 (100%)	121 (100%)	826

7.1. Fel y mae'r ymatebion i'n cwestiwn caeedig ar isafswm lefel gallu staff heb eu cofrestru yn ei adlewyrchu (gweler Tabl 3 uchod), roedd sefydliadau yn fwy tebygol o lawer o fod â gofid am y cynnig hwn, o'i gymharu ag unigolion.

### 7.2. Rhesymeg dros gytuno gyda'r cynigion cymhwyster NVQ/SVQ lefel 2

7.2.1. Roedd llawer o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau pellach ar y mater hwn yn cytuno bod y cynnig yn sicrhau lefel cymwysterau ddigonol. Un o fanteision mawr y cynnig oedd ei fod yn rhoi cysondeb ar hyd y maes, ac yn ei safoni, ac ystyriwyd hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd teimlad bod symud at system NVQ/SVQ yn ffordd o alluogi fferylliaeth i gadw ffydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y tymor hirach, mewn cyd-destun lle mae cleifion yn disgwyl mwy a mwy o ran cael mynediad at gyngor arbenigol a chall a gwasanaethau o safon.

### 7.3. Rhesymeg dros anghytuno gyda'r cynigion cymhwyster NVQ/SVQ lefel 2

7.3.1. Ymhlith llawer o ymatebwyr, nid oedd croeso i'r symudiad at gymhwyster penodol ac roeddent yn ei ystyried yn rhy haearnidd. Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd sydd ar waith ar hyn o bryd a'r gallu i ddewis o blith amryw o opsiynau ar gyfer safonau penodol. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y system bresennol yn un o safon ac nad oedd angen cael system newydd yn ei lle - roedd teimlad bod symud o'r system bresennol yn ddianghenraid ac yn wrthgynhyrchiol. Roedd dileu'r geiriau "neu gyfwerth" yn arbennig yn cael ei ystyried yn broblem.

7.3.2. Dywedodd nifer o ymatebwyr bod cyflogwyr yn derbyn sicrwydd ynghylch gwybodaeth a sgiliau drwy gyfrwng cyrsiau wedi eu cymeradwyo gan y CFFC. Ystyriwyd bod y rhain:

- yn darparu isafswm da ar gyfer lefel gallu

- eisoes yn cael eu defnyddio a’u deall gan gyflogwyr
  - yn gweithio’n dda er budd diogelwch cleifion a delwedd fferylliaeth
- 7.3.3. Mynegwyd pryder ynghylch y cynnig i beidio ag achredu cyrsiau gan y CFfC. Roedd gofid y gallai rhai darparwyr NVQ/SVQ, dros amser, symud i ffwrdd o’r safonau cydnabyddedig ac na allai perchnogion neu oruchwylwyr ymateb i’r newid hwn. Roedd teimlad y dylid cadw’r rôl sicrhau ansawdd, a phe bai’r CFfC yn rhoi’r gorau i’r rôl hon, y dylai sefydliad arall ag enw da gamu i’r adwy a darparu’r sicrwydd. Ystyriwyd mai cyrff proffesiynol fel y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) a Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU (APTUK) fyddai yn y safle gorau i ymgymryd â rôl o’r fath. Soniwyd hefyd am y posibilrwydd o gael system adolygu cymheiriaid i gefnogi arloesedd ac arfer da.
- 7.3.4. Soniodd ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu’r cynnig hefyd am faich cymhwyster NVQ/SVQ o’i gymharu â chysiau presennol. Ystyriwyd bod cymhwyster galwedigaethol wedi ei gydnabod yn genedlaethol yn ddrutach ac yn fwy beichus i’r sawl oedd yn hyfforddi a’r sawl oedd yn eu goruchwyllo. Nododd rhai hefyd y byddai cwrs fel hwn yn allgau rhai pobl - e.e. pobl hŷn - a fyddai’n cael natur haearnidd y cwrs yn anodd, a’r amser i’w gwblhau yn hir. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hyn yn effeithio ar apêl y rolau fferyllol hyn a gallu fferyllfeydd i recriwtio ymhlith pobl o’r grwpiau hyn. Roedd ymatebwyr o’r farn y dylid cadw cyrsiau achrededig cyfatebol yn ddewis ar gyfer cyrraedd lefelau gallu lleiafswm.
- 7.3.5. Soniwyd hefyd am anhawster a allai godi o ran y sawl sydd eisoes wedi cwblhau cwrs perthnasol ac yn ymarfer yn effeithiol. Roedd ymatebwyr yn gofyn am eglurder ynghylch a fyddai angen i’r staff hyn ailhyfforddi neu a fyddai “nainatheidio” ar waith.
- 7.3.6. Dyma rai pryderon eraill y soniwyd amdanynt yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad:
- Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd cymhwyster ffurfiol o anghenraid yn golygu staff o ansawdd uchel.
  - Roedd rhai o’r farn bod lefel y cymhwyster a gynigir yn rhy isel ac y dylai fod yn lleiafswm ar gyfer pobl yn gweithio gyda’r cyhoedd. Ystyriwyd bod DPP yn hanfodol yn hyn o beth.
  - Roedd rhai’n ystyried na ddylai lefel y cymhwyster fod yn hollol haearnidd, ac y dylai ddibynnu ar rôl yr aelod staff heb ei gofrestru yn y fferyllfa, ac mai’r perchennog ddylai benderfynu arni.
  - Galwodd rhai ymatebwyr am ganllawiau pellach gan y CFfC ynghylch yr unedau perthnasol o gymhwyster Lefel 2 roedd gofyn amdanynt, yn hytrach na dibynnu ar ddisgresiwn y perchennog.
  - Trafododd rhai o’r rhai fu yn ein digwyddiadau bwrdd y gwahaniaethau rhwng NVQ ac SVQ a’r ffaith and yw cymwysterau NVQ wedi eu diogelu at y dyfodol. Roedd rhai yn teimlo nad oedd cyrsiau NVQ/SVQ yn ymdrin â rolau a chyfrifoldebau cynyddol staff heb eu cofrestru.
  - Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu dichonolrwydd y cynigion yn achos myfyrwyr fferylliaeth a hyfforddeion cyn-gofrestru. Roedden nhw’n ystyried cwblhau NVQ/SVQ ffurfiol yn anghymesur yn eu hachos nhw.

## 8. Yr hyn a glywom: Barn ar ddechrau hyfforddi o fewn tri mis o gychwyn y gyflogaeth

Tabl 4. Dechrau hyfforddi o fewn tri mis i gychwyn y gyflogaeth: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a gynigir?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Ydw	526 (75%)	64 (53%)	590
Nac ydw	180 (25%)	57 (47%)	237
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>706 (100%)</b>	<b>121 (100%)</b>	<b>827</b>

8.1. Roedd gwahaniaethau rhwng unigolion a sefydliadau o ran ein cynnig. Roedd cefnogaeth i'r cyfnod tri mis i ddechrau hyfforddi yn fwy helaeth o lawer ymhlith unigolion o'i gymharu â sefydliadau ( gweler Tabl 4 uchod). Fodd bynnag, roedd y rhesymau dros gefnogi neu wrthwynebu'n debyg ymhlith y ddau grŵp ymateb.

### 8.2. Rhesymeg dros gytuno â'r amserlen a gynigir

8.2.1. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod tri mis yn gyfnod addas i ddechrau hyfforddi ar gyfer staff heb eu cofrestru. Ystyriwyd hyn yn beth da o safbwynt diogelwch cleifion, ac o safbwynt y staff heb eu cofrestru. Nodwyd yn aml y byddai hyn yn helpu staff heb eu cofrestru wrth eu gwaith a'u hatal rhag ffurfio 'arferion gwael'.

8.2.2. Roedd teimlad bod tri mis yn gyfnod addas o ran cyfnodau prawf, sefydlu mewn swydd ac ymgyfarwyddo gyda'r gweithle.

8.2.3. Roedd teimlad hefyd bod cyfnod safonol i bawb yn ffordd o sicrhau cysondeb ac ansawdd ledled y sector.

8.2.4. Awgrymodd rhai y dylid ymrestru staff heb eu cofrestru ar gwrs o fewn y tri mis cyntaf, ond heb orfod cychwyn ar y cwrs yn ystod y cyfnod hwnnw o anghenraid.

### 8.3. Rhesymeg dros anghytuno gyda'r amserlen a gynigir

8.3.1. Nododd y sawl oedd yn anghytuno mai tri mis fel arfer yw hyd cyfnod prawf, ac y byddai felly'n amhriodol dechrau hyfforddi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd rhai'n teimlo y dylid ymrestru staff heb eu cofrestru ar gwrs yn syth wedi i'r cyfnod prawf ddod i ben a'u haddasrwydd ar gyfer y rôl wedi ei sefydlu. Nodwyd pedwar mis a chwe mis fel cyfnodau eraill posibl.

8.3.2. Nododd rhai ymatebwyr nad yw cychwyn ar hyfforddiant o fewn y cyfyngiad amser hwn wastad yn ymarferol a bod cyfyngiadau cyfyng neu ddeddfwriaethol yn ychwanegu at y llwyth gwaith presennol a'r pwysau ariannol sydd ar fferyllfeydd. Gallai'r cynnig hwn, er enghraifft, olygu buddsoddi mewn cwrs ar gyfer rhywun sy'n methu ei gyfnod prawf neu sy'n penderfynu gadael yn fuan wedi hynny. Soniwyd hefyd am staff ag oriau gwaith afreolaidd, megis gweithwyr rhan amser, fyddai'n gwneud amserlen haearnaidd i ddechrau hyfforddi yn anymarferol, yn annichonadwy ac yn un na ellid ei chyfiawnhau mewn rhai achosion.

- 8.3.3. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo i'r gwrthwyneb - sef y dylid ymrestru staff heb eu cofrestru ar gwrs gynted ag y bônt yn cychwyn eu rôl. Y rheswm a roddwyd dros hyn oedd sicrhau eu bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig o'r cychwyn cyntaf a'u bod yn alluog ar gyfer eu rôl, sydd yn aml yn wynebu'r cyhoedd ac yn gyfrifol. Nodwyd un mis fel cyfnod posibl arall i gychwyn ar gwrs, er diogelwch cleifion.
- 8.3.4. Roedd rhai yn rhannu'r farn y gallai cyfnod o dri mis fod yn amhriodol neu'n rhy fyr, ond bod amserlen diffiniedig yn ddymunol.
- 8.3.5. Roedd sefydliadau yn fwy tebygol o ffafrio'r opsiwn o ymestyn y cyfnod tri mis, oherwydd cyfnodau prawf ac er mwyn osgoi'r gost o fuddsoddi mewn rhywun na fyddai efallai yn addas ar gyfer y rôl neu'n debygol o adael y gweithle. Roedd unigolion, ar y llaw arall, yn dueddol yn amlach o grybwyll amserlen fyrrach i gychwyn ar hyfforddiant gan staff heb eu cofrestru. Y rheswm a roddwyd dros hyn oedd sicrhau bod pobl yn alluog ac yn ddiogel i weithredu gynted ag y bônt yn ymuno â fferyllfa.

## 9. Yr hyn a glywom: Barn ar effaith y newidiadau a gynigir

Tabl 5. Effaith ar berchnogion fferyllfeydd: Dadansoddiad o'r ymatebion

Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Dim effaith	23 (3%)	0 (0%)	23
Cadarnhaol yn bennaf	232 (33%)	26 (21%)	258
Rhannol gadarnhaol	39 (6%)	6 (5%)	45
Cadarnhaol a negyddol	283 (40%)	36 (30%)	319
Rhannol negyddol	44 (6%)	7 (6%)	51
Negyddol yn bennaf	82 (12%)	46 (38%)	128
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>703 (100%)</b>	<b>121 (100%)</b>	<b>824</b>

Tabl 6. Effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol: Dadansoddiad o'r ymatebion

Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar weithwyr fferyllol proffesiynol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Dim effaith	25 (4%)	3 (2%)	28
Cadarnhaol yn bennaf	420 (60%)	41 (34%)	461
Rhannol gadarnhaol	65 (9%)	7 (6%)	72
Cadarnhaol a negyddol	91 (13%)	29 (24%)	120
Rhannol negyddol	35 (5%)	18 (15%)	53

Negyddol yn bennaf	67 (10%)	23 (19%)	90
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>703 (100%)</b>	<b>121 (100%)</b>	<b>824</b>

Tabl 7. Effaith ar staff fferyllol heb eu cofrestru: Dadansoddiad o'r ymatebion

Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar staff fferyllol sydd heb eu cofrestru?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Dim effaith	18 (3%)	1 (1%)	19
Cadarnhaol yn bennaf	363 (52%)	44 (37%)	407
Rhannol gadarnhaol	55 (8%)	7 (6%)	62
Cadarnhaol a negyddol	143 (20%)	32 (27%)	175
Rhannol negyddol	45 (6%)	7 (6%)	52
Negyddol yn bennaf	76 (11%)	29 (24%)	105
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>700 (100%)</b>	<b>120 (100%)</b>	<b>820</b>

Tabl 8. Effaith ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol: Dadansoddiad o'r ymatebion

Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Dim effaith	56 (8%)	16 (13%)	72
Cadarnhaol yn bennaf	483 (69%)	50 (41%)	533
Rhannol gadarnhaol	44 (6%)	7 (6%)	51
Cadarnhaol a negyddol	65 (9%)	23 (19%)	88
Rhannol negyddol	15 (2%)	5 (4%)	20
Negyddol yn bennaf	42 (6%)	20 (17%)	62
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>705 (100%)</b>	<b>121 (100%)</b>	<b>826</b>

9.1. Fel yr adlewyrchir yn y cwestiynau caeedig perthnasol (gweler Tablau 5, 6, 7 ac 8 uchod), roedd gan ymatebwyr ystod eang o farn ynghylch effaith bosibl y cynigion.

## 9.2. Cadarnhaol yn bennaf

9.2.1. Roedd ymatebwyr ar ben cadarnhaol y sbectrwm o'r farn y byddai'r cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar ddiogelwch cleifion. Roedden nhw'n teimlo bod staff wedi eu hyfforddi'n well o fudd i bawb, ac yn sicrhau:

- cysondeb ledled y sector
- bod gan berchnogion weithlu dibynadwy
- cefnogaeth ddigonol i'r fferylllydd, a
- staff anghofrestredig â gwell sgiliau i wasanaethu cleifion a'r cyhoedd

9.2.2. Soniwyd yn aml, fodd bynnag, y byddai llwyddiant y canllawiau a'r cynigion yn dibynnu ar y ffordd y byddai'r CFC yn gorfodi polisiau'r fenter. Roedd teimlad y dylid monitro'r rhwymedigaethau mae'r cynigion yn eu cyflwyno yn ystod arolygon. Codwyd cwestiynau ynghylch canlyniadau peidio â chydymffurfio a'r sancsiynau y gellid eu gosod ar berchnogion fferyllfeydd mewn amgylchiadau o'r fath.

### **9.3. Effaith negyddol ar berchnogion a rheoli fferyllfeydd**

9.3.1. Nodwyd pryder yn aml am faich ychwanegol cymhwyster NVQ/SVA o'i gymharu â chyrtsiau achrededig presennol y CFC. Roedd gofid y byddai cost hyfforddi yn feichus, ac y byddai'n costio hefyd yn nhermau amser rheoli, gweinyddu, ac amser datblygu/hyfforddi mewnol. Roedd teimlad bod yr NVQ yn cymryd mwy o amser yr hyfforddwr a'r hyfforddai, o'i gymharu â'r rhaglenni presennol. Roedd rhai yn teimlo y byddai hyn yn digalonni ymgeiswyr newydd ac y byddai'n gwneud recriwtio a chadw staff yn anodd, yn y tymor byr o leiaf.

9.3.2. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r baich ariannol a biwrocraidd hwn yn broblem ar adeg pan fo cyllidebau fferyllol dan bwysau, ac y gallai gael effaith andwyol ar ofal cleifion. Gallai rwystro rhai perchnogion, er enghraifft, rhag cyflogi staff ychwanegol neu ddarparu rhai gwasanaethau hyd yn oed.

9.3.3. Roedd teimlad y byddai'r cynigion hyn yn cael mwy o effaith negyddol ar berchnogion fferyllfeydd annibynnol o'i gymharu â pherchnogion lluosog oherwydd baich ariannol ychwanegol hyfforddiant ar gyllidebau oedd eisoes dan bwysau.

### **9.4. Effaith negyddol ar fferyllwyr**

9.4.1. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion gael effaith negyddol ar fferyllwyr oherwydd baich rheoli ychwanegol y cymwysterau NVQ, gan mai nhw fyddai'n cael eu dirprwyo i ddarparu'r hyfforddiant.

### **9.5. Effaith negyddol ar staff fferyllol heb eu cofrestru**

9.5.1. Soniwyd eto am yr effaith anghymesur ar staff rhan amser.

9.5.2. Soniwyd hefyd am 'nainatheidio' a bod angen datrys hyn.

### **9.6. Effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol**

9.6.1. Soniodd nifer o ymatebwyr y gallai anghysondeb godi yn sgiliau a chymwysterau staff heb eu cofrestru, a methiannau i gyrraedd safonau fferylliaeth, pe bai'r CFC yn rhoi'r gorau i fod â chyfrifoldeb dros gymeradwyo cyrsiau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai canfyddiad y cyhoedd o fferylliaeth yn dioddef yn sgil diffyg cyrsiau cymeradwy.

- 9.6.2. Mynegwyd barn hefyd bod tŷn y canllawiau yn awgrymu wrth aelodau'r cyhoedd bod gofid eang am effeithlonrwydd y system bresennol. Mewn gwirionedd, nid oes tystiolaeth glir bod hyn yn wir, ac felly nid oedd angen "cywiro rhywbeth nad oedd wedi torri".

## 10.Yr hyn a glywom: Barn ar effaith y cynigion ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig

Tabl 9. Effaith ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig: Dadansoddiad o'r ymatebion

Ydych chi'n credu y gallai'r cynigion effeithio ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm
Ydw	108 (15%)	28 (24%)	136
Nac ydw	591 (85%)	91 (76%)	682
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>699 (100%)</b>	<b>119 (100%)</b>	<b>818</b>

- 10.1. Fel gyda'r cwestiwn caeedig ar effaith bosibl y cynigion ar unigolion neu grwpiau'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig (gweler Tabl 9 uchod), nid oedd oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dueddol o ragweld effaith o'r fath.
- 10.2. Soniodd ymatebwyr oedd yn rhagweld effaith o'r fath y gallai'r grwpiau canlynol o bosibl gael eu rhoi dan anfantais gan y cynigion:
- Staff heb eu cofrestru sydd ag anawsterau dysgu, dyslecsia, neu rhai sydd angen addasiadau rhesymol. Soniwyd hefyd am rai sydd yn cael dysgu ffurfiol yn anodd, ond heb fod â nam ar eu gallu i ddysgu mewn ffordd ymarferol.
  - Staff rhan amser, sy'n fwy tebygol o fod yn anabl, yn iau, yn hŷn, neu'n feichiog/dychwelyd i'r gwaith wedi bod ar gyfnod mamolaeth. Gallai cwblhau'r hyfforddiant fod yn anos i'r gweithwyr hyn, neu gallai fod yn anos cael eu hasesu neu i ymrestru ar gwrs o fewn tri mis i gychwyn y swydd.
  - Staff hŷn a allai fod wedi bod yn eu swydd ers blynnyddoedd ond a fyddai'n teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ymgymryd ag astudiaethau academiaidd, heb fod eisiau neu'n gallu gwneud hynny.
  - Staff nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
  - Fferyllwyr Israddedig, y byddai angen iddynt gwblhau NVQ/SVQ ar ben eu hastudiaethau prifysgol.
  - Grwpiau agored i niwed gyda nodweddion gwarchoddedig ymhlith defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, a fyddai'n dioddef o ganlyniadau posibl colli cyrsiau wedi eu hachredu gan y CFfC - e.e. anghysondeb yn sgiliau a galluoedd staff heb eu cofrestru.

- 10.3. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at effaith bosibl y newidiadau ar fferyllwyr sydd eisoes â gormod o waith a straen arnynt. Roedden nhw'n teimlo y gallai pwysau ychwanegol system fwy beichus arwain at ansefydlogrwydd meddyliol, iselder neu or-bryder ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol.
- 10.4. Roedd pwysigrwydd hyfforddiant cydraddoldeb i staff heb eu cofrestru yn cael ei werthfawrogi. Roedd ymatebwyr yn cytuno gyda phwysigrwydd adnabod a delio'n broffesiynol gyda sensitifrwydd diwylliannol a nodweddion gwarchoddedig cleifion a'r cyhoedd.

## 11. Proffiliau ymatebwyr

- 11.1. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau cychwynnol i gael gwybodaeth am leoliad cyffredinol ymatebwyr, ac ym mha rinwedd yr oedden nhw'n ymateb. Ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, gofynnwyd iddynt nodi a oeddent yn fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol ynteu'n berchnogion fferyllfa, ac yma mha fath o leoliad roedden nhw fel arfer yn gweithio. Ar gyfer rhai'n ymateb ar ran sefydliadau, gofynnwyd cwestiwn am y math o sefydliad yr oedden nhw'n gweithio iddo. Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion hyn.

### 11.2. Categori ymatebwyr

Tabl 10. Yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad

Ydych chi'n ymateb:	N	% o'r cyfan
Fel unigolyn	708	85%
Ar ran sefydliad	123	15%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>831</b>	<b>100%</b>

### 11.3. Proffil ymatebwyr unigol

Tabl 11. Ymatebwyr unigol - gwledydd

Ble rydych chi'n byw?	N	% o'r cyfan
Lloegr	575	83%
Yr Alban	79	11%
Cymru	28	4%
Gogledd Iwerddon	3	0%
Arall	11	2%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>696</b>	<b>100%</b>

Tabl 12. Proffil ymatebwyr unigol



<b>Ydych chi'n ymateb fel:</b>	<b>N</b>	<b>% o'r cyfan</b>
Gweithiwr fferyllol proffesiynol neu berchennog fferyllfa	673	95%
Aelod o'r cyhoedd	20	3%
Hyfforddai cyn-gofrestru	6	1%
Myfyriwr	1	0%
Arall <sup>3</sup>	8	1%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>708</b>	<b>100%</b>

Tabl 13. Proffil gweithwyr fferyllol proffesiynol

<b>Ydych chi'n:<sup>4</sup></b>	<b>N</b>	<b>% o'r cyfan</b>
Fferyllydd	522	74%
Technegydd fferyllol	140	20%
Perchennog fferyllfa	46	6%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>708</b>	<b>100%</b>

Tabl 14. Gweithwyr fferyllol proffesiynol: meysydd gwaith

<b>Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio ble rydych chi'n gweithio'n bennaf:</b>	<b>N</b>	<b>% o'r cyfan</b>
Fferyllfa gymunedol	489	73%
Fferyllfa ysbyty	84	13%
Sefydliad gofal sylfaenol	42	6%
Hyfforddiant ac addysg fferyllol	17	3%
Diwydiant fferyllol	8	1%
Arall	30	4%
<b>Total N of responses</b>	<b>670</b>	<b>100%</b>

<sup>3</sup> Sylwer bod rhai ymatebwyr wedi eu nodi eu hunain fel "arall"; cawson nhw eu hychwnaegu, fodd bynnag, at naill ai'r categori fferyllydd neu gategori technegydd fferyllol ar sail eu disgrifiad o'u rôl.

<sup>4</sup> Sylwer bod cyfanswm y nifer o weithwyr fferyllol proffesiynol yn y tabl hwn yn uwch nag yn y tabl blaenorol. Mae hyn oherwydd bod nifer o berchnogion fferyllfeydd hefyd yn fferyllwyr neu'n dechnegwyr fferyllol, felly byddent wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.

#### 11.4. Proffil ymatebwyr sefydliad

Tabl 15. Ymatebwyr sefydliad: math o sefydliad

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio eich sefydliad orau:	N	% o'r cyfan
Sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd	3	2%
Sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol	22	18%
Fferyllfa annibynnol (1-5 fferyllfa)	62	50%
Fferyllfa luosog (6 neu fwy o fferyllfeydd)	17	14%
Sefydliad neu grŵp GIG	8	7%
Sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant	6	5%
Arall	5	4%
<b>Cyfanswm nifer ymatebwyr</b>	<b>123</b>	<b>100%</b>

#### 11.5. Proffil ymatebwyr (arolwg byr)

Tabl 16. Proffil ymatebwyr (arolwg byr)

Beth yw eich rôl yn y tîm fferyllol ar hyn o bryd?	N	% o'r cyfan
Cynorthwydd dosbarthu meddyginiaeth	41	54%
Fferyllydd cofrestredig	17	22%
Technegydd fferyllol cofrestredig	6	8%
Rheolwr fferyllol heb gofrestru gyda'r CFFC	5	7%
Cynorthwydd cownter meddyginiaethau	5	7%
Technegydd dan hyfforddiant	1	1%
Dosbarthwr meddyginiaethau dan hyfforddiant	1	1%
<b>Cyfanswm nifer ymatebwyr</b>	<b>76</b>	<b>100%</b>

## Atodiad 1: Sefydliadau

Roedd y canlynol yn rhan o'r ymgynghoriad drwy gyfrwng yr arolwg ar-lein, ymateb drwy e-bost a chyfarfodydd ar gyfer rhanddeiliaid:

A J Gilbert (Chemist ) Ltd

A P Chemist Ltd

A.F. Browne Ltd T/A Brownes Chemist

Abalane Ltd

Alcura Ltd

Allesley Pharmacy

AMF Medica

Anna healthcare ltd

Ashburton Pharmacy

Association of Pharmacy Technicians UK (APTUK)

Association of the British Pharmaceutical Industry (ABPI)

Avicenna plc

Barons Pharmacy Ltd

BJ Wilson Ltd

Boots' Pharmacist Association

Boots UK

Buttercups Training

Cambridge University Hospitals NHS Foundation Trust

Camden and Islington LPC

Celesio UK

Central and North West London NHS Foundation Trust

Chelmack Ltd

City and Guilds of London Institute

Clarity Pharmacy

Clockwork Pharmacy

Communications International Group CIG

Community Pharmacy Scotland

Company Chemists' Association

Craigavon Area Hospital  
Cranston Ltd  
Dalston Pharmacy Ltd  
Devon Local Pharmaceutical Committee  
Dickson Chemist  
Direct2Chemist  
Dorset LPC  
Dumlers pharmacy  
East Sussex LPC  
Essentials  
Fagley Pharmacy  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Fourway Pharmacy  
Gallagher Healthcare Ltd  
Green Light Pharmacy  
Griffiths Pharmacy  
Grove Park Pharmacy  
Guild of Healthcare Pharmacists  
Guild of Healthcare Pharmacists (Scottish division)  
H A McParland Group  
Halton St Helens and Knowsley LPC  
Hampshire Pharmaceuticals Limited  
Health Education England  
Health Education England (London & South East)  
Healthwatch Dudley  
Hive  
Howells & Jolley  
Howells and Harrisons (Southend ) Ltd  
Ian Morton Ltd  
Is-grŵp Gweithnredol Hyfforddiant ac Addysg Pwyllgor Prif Fferyllydd Cymru  
Jade Pharmacy Group

Jhoots Pharmacy  
John P Fenton and Sons Ltd  
John Ross Chemist/Ltd  
Kent LPC  
Kings Health Pharmacy  
LGBT foundation  
Lo's Pharmacy group  
Lords Pharmacy Ltd  
Masons Chemists  
Massinghams chemist  
Meanwood Pharmacy  
Mediapharm Ltd  
Medichest Ltd  
MediShop Ltd & Boreham EA Ltd  
Medix Pharmacy  
Mildcare Ltd  
Mirash Ltd  
MJ Roberts Chemist Ltd  
Mornicrest Ltd  
Nashi Ltd  
National Clinical Homecare Association  
National Pharmacy Association  
NHS Education for Scotland  
NHS GG&C APC  
NHS Highland  
NHS Scotland Directors of Pharmacy Group  
Parkinson's UK  
PC Pharmacies Ltd  
Pearl Chemist Ltd  
Perfucare Pharmacy  
Pharm@Sea

Pharmaceutical Services Negotiating Committee  
Pharmacists' Defence Association  
Pharmacy Forum  
Pharmacy Team Ltd  
Pharmacy Thames Valley  
Pleck Pharmacy  
Polypharm Ltd  
Prif Fferyllydd Addysg Cymru Gyfan  
Rains Pharmacy  
Rowlands Pharmacy  
Royal Pharmaceutical Society  
RTCP  
Scientia skills  
Scott the Chemist  
Scottish Qualifications Authority  
Shivas Pharmacy Ltd  
South Staffordshire Local Pharmaceutical Committee  
SPM Network - Hospital Workforce Development Group  
St Helen's Millenium Centre Pharmacy  
Sterling Pharmacy  
Suffolk LPC  
Sutton Associates Ltd  
Swindon and Wiltshire LPC  
Tanna Pharmacy  
Tele Chem Pharmacy  
The Nelson Pharmacy  
The University of Manchester  
The Village Pharmacy  
Theydon Bois Pharmacy  
V U Chem Ltd  
Walsall Local Pharmaceutical Committee

Weldricks Pharmacy

Wemyss Bay Pharmacy

Wolverhampton LPC

Workforce Education Development Service

Wraysbury Village Pharmacy

## Atodiad 2: Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad (arolwg byr)

Tabl 17. Atebolrwydd perchnogion fferyllfeydd: Dadansoddiad o'r ymatebion (arolwg byr)

Ydych chi'n cytuno mai perchennog y fferyllfa, yn hytrach na'r fferylllydd, ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff heb eu cofrestru'r hyfforddiant angenrheidiol a'u bod yn alluog ar gyfer eu rolau?	N	% o'r cyfan
Ydw	62	79%
Nac ydw	16	21%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>78</b>	<b>100%</b>

Tabl 18. Gofynion hyfforddiant ac addysg: Dadansoddiad o'r ymatebion (arolwg byr)

Ydych chi'n cytuno y dylai staff heb eu cofrestru orfod cwblhau unedau perthnasol cymhwyster NVQ/SVQ Lefel 2?	N	% o'r cyfan
Ydw	71	91%
Nac ydw	7	9%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>78</b>	<b>100%</b>

Tabl 19. Dechrau hyfforddi o fewn tri mis i gychwyn gwaith: Dadansoddiad o'r ymatebion (arolwg byr)

Ydych chi'n cytuno y dylai staff heb eu cofrestru orfod dechrau eu hyfforddiant o fewn tri mis i gychwyn eu gwaith?	N	% o'r cyfan
Ydw	69	88%
Nac ydw	9	12%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>78</b>	<b>100%</b>

Tabl 20. Effaith y cynigion ar ymatebwyr: Dadansoddiad o'r ymatebion (arolwg byr)

Pa effaith gredwch chi y caiff y cynigion arnoch chi?	N	% o'r cyfan
Dim effaith	14	18%
Cadarnhaol yn bennaf	45	58%
Rhannol gadarnhaol	6	8%
Cadarnhaol a negyddol	9	12%
Rhannol negyddol	2	3%
Negyddol yn bennaf	2	3%
<b>Cyfanswm nifer ymatebion</b>	<b>78</b>	<b>100%</b>